**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Tachwedd, 2016

Annwyl Weinidog

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 2 Tachwedd i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. Roedd nifer o feysydd y gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor yn eu cylch i roi rhagor o wybodaeth. Mae yna hefyd un neu ddau o feysydd y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o eglurhad yn eu cylch.

*Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd*

Gwnaethoch nodi bod gwerthusiad o'r prosiect wedi'i wneud ac y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor gan roi rhagor o fanylion am y canfyddiadau.

*Asiantaeth er Hyrwyddo'r Gymraeg*

Gwnaethoch nodi eich bod yn ystyried sefydlu asiantaeth er hyrwyddo'r iaith Gymraeg a beth fyddai strwythur a swyddogaeth asiantaeth o'r fath. Roeddech yn gobeithio gwneud penderfyniadau terfynol ar y materion hyn cyn i'r gyllideb derfynol gael ei hystyried gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Gwnaethoch addo y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl i chi fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau.

*Asesiad Effaith Strategol Integredig*

Gwnaethoch addo rhoi rhagor o fanylion o ran ynglŷn â sut rydych yn bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ar gyfer y Gymraeg a'r canlyniadau cysylltiedig o ran yr asesiad effaith strategol integredig yn y naratif ynglŷn â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

*Llinell Wariant y Gymraeg mewn Addysg yn y Gyllideb*

Mewn ymateb i gwestiynau, gwnaethoch nodi y gellir defnyddio rhan o'r £4.85 miliwn ychwanegol sydd yn Llinell Wariant y Gymraeg mewn Addysg yn y Gyllideb i sefydlu asiantaeth newydd er hyrwyddo'r iaith Gymraeg, neu ynteu i greu swyddogaeth debyg o fewn corff sydd eisoes yn bodoli. Dywedasoch y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn i'r gyllideb derfynol ddod gerbron y Cynulliad ym mis Rhagfyr.

*Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg*

Yn y cyfarfod gwnaethoch nodi nad oedd y Comisiynydd wedi gwneud unrhyw gais am gynnydd yn ei chyllideb. Fodd bynnag, yn dilyn hyn cysylltwyd â ni gan swyddfa'r Comisiynydd a ddywedodd wrthym:

*Anfonwyd amcangyfrif ariannol y Comisiynydd ar gyfer 2017/18 at y Llywodraeth ar 6 Hydref. Mae dyletswydd statudol arnom i anfon yr amcangyfrif at y Llywodraeth o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol perthnasol.*

*Cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2016/17 oedd £3,051,000. Yn yr amcangyfrif gwnaeth y Comisiynydd gais am £150,000 ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf. H.y. £75,000 yn ychwanegol ar gyfer 2017/18, sef cyllideb o £3,126,000.*

*Gallaf gadarnhau felly bod y Comisiynydd wedi gwneud cais am fwy o arian ar gyfer 2017/18.*

Mae'n amlwg bod rhywfaint o ddryswch rhwng yr hyn a ddywedoch chi wrthym a'r hyn a ddywedodd y Comisiynydd wrthym yn ddiweddarach.  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa fel mater o frys.

Yn gywir

**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/6488/16

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Y Pwllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Tachwedd 2016

Annwyl Bethan,

Diolch am y cyfle i ddod gerbron Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 2 Tachwedd i drafod ein cynigion ar gyfer y Gymraeg yng nghyd-destun cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rydw i wedi ymateb i'ch ceisiadau am ragor o wybodaeth gan ddilyn trefn y penawdau yn eich llythyr chi.

*Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd*
Mae sicrhau dilyniant ieithyddol i bobl ifanc o addysg statudol i addysg bellach ac addysg uwch yn un o flaenoriaethau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nod prosiect yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd oedd cefnogi colegau addysg bellach i sefydlu seilwaith ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio a datblygu'i sgiliau iaith. Dyrannwyd grant i bob coleg addysg bellach am dair blynedd academaidd, fel rhan o raglen dreigl, er mwyn cyflogi swyddog penodol i gynllunio darpariaeth a chynnal gweithgareddau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y bobl ifanc. Mae grantiau'r pedwar coleg olaf i ymuno â'r prosiect yn dod i ben yn ystod 2016-17.

Cyhoeddwyd Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach (http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140925-welsh-medium-education-strategy-bilingual-champions-cy.pdf) ym mis Medi 2014 fel rhan o werthusiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, gwelwyd bod gwaith yr Hyrwyddwyr wedi "arwain at gynnydd clir yn y sylw a roddir i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynnydd na fyddai, yn ôl pob tebygolrwydd, wedi'i weld oni bai am fodolaeth rôl yr Hyrwyddwyr".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwelwyd cynnydd hefyd yn y data a ddangosai bod nifer y myfyrwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi codi dros gyfnod o bum mlynedd o 6.2% yn 2009/10 i 7.2% yn 2014/15.

Er bod y prosiect yn dod i ben yn ystod 2016-17, mae pob coleg addysg bellach wedi parhau gyda rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd naill ai fel un swydd, neu'n rhannu'r dyletswyddau rhwng un neu fwy o staff y coleg. O ganlyniad i'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, mae gan y colegau'r gefnogaeth i weithredu eu cynlluniau i gynyddu darpariaeth gwricwlaidd cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u sgiliau yn y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gefnogi colegau addysg bellach trwy'r Lwfans Cyfrwng Cymraeg a roddir i golegau fel rhan o'u setliad refeniw blynyddol. Disgwylir i golegau ddefnyddio'r lwfans i ddatblygu darpariaeth i alluogi dysgwyr i barhau gyda'u haddysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Yn ogystal, rydym yn cefnogi'r colegau i gynyddu eu darpariaeth drwy'r Cynllun Sabothol (sy'n darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i ddarlithwyr) a thrwy ein cytundeb gyda Sgiliaith (sy'n darparu cymorth ymarferol a hyfforddiant i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog).

Rydym wedi nodi'n glir yn y Strategaeth ddrafft y Gymraeg ein bod am sicrhau bod dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ddewis hollol naturiol wrth i bobl ddilyn addysg bellach ac addysg uwch. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i wneud argymhellion ar y ffordd ymlaen, gan ystyried ehangu rôl y Coleg i gynnwys addysg bellach. Byddwn felly yn aros i dderbyn adroddiad y Grŵp cyn gwneud penderfyniadau ar ddarparu cefnogaeth bellach.

*Asiantaeth er Hyrwyddo'r Gymraeg*

Nodais yn y cyfarfod ar 2 Tachwedd bod sawl penderfyniad sydd angen eu gwneud yn y maes yma, megis strwythur a swyddogaeth yr asiantaeth newydd. Yn sicr, mae'n hanfodol bod y materion yma oll yn cael eu hystyried yn drylwyr i sicrhau gwerth am arian ac i sicrhau'r deilliannau gorau posib ar gyfer y buddsoddiad newydd yma i hybu'r Gymraeg. Gan hynny, rwy'n awyddus ein bod ni'n cymryd ein hamser wrth ddyrannu'r cyllid i sicrhau'r effaith fwyaf posib. Yn sicr, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda mwy o fanylion yn syth ar ôl i'r penderfyniadau gael eu gwneud.

*Asesiad Effaith Strategol Integredig*

Tra bod yr Asesiad Effaith Integredig yn ffocysu ar effeithiau strategol lefel uchel penderfyniadau gwario, trwy gydol y broses o gynllunio'r gyllideb, mae asesiadau effaith yn cael eu cynnal yn unol â gweithdrefnau'r Llywodraeth ym mhob maes. Mae asesiadau effaith ar gynlluniau gwariant y portffolios yn cael eu craffu trwy graffu'r pwyllgorau unigol ar gyllidebau.

*Llinell Wariant y Gymraeg mewn Addysg yn y Gyllideb*

Fel a nodais yn fy mhapur tystiolaeth, trwy'r cytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru, bydd £5m o arian newydd yn cael ei fuddsoddi i ddatblygiad pellach Cymraeg i Oedolion trwy law'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd eisoes yn bodoli (yn benodol, ar gyfer cyrsiau Cymraeg yn y gweithle), a bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei fuddsoddi i hyrwyddo'r Gymraeg.

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae penderfyniadau i'w gwneud parthed yr asiantaeth newydd fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac hyd nes y bydd y penderfyniadau hynny wedi eu gwneud, nid oes modd i mi gadarnhau faint o'r arian fydd yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg ar lawr gwlad yng Nghymru. Yn sicr, byddaf yn anelu at sicrhau'r deilliannau gorau posib a bod gymaint o'r arian â phosib yn cael ei wario ar hyrwyddo'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru.

*Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg*
O'ch llythyr, rwy'n deall bod aneglurder parthed cyllideb Comisiynydd y Gymraeg yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn 2017-18. Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, cytunodd y Prif Weinidog i ddyrannu cyllid ychwanegol untro o £150,000 i Gomisiynydd y Gymraeg ym mlwyddyn ariannol 2015-16 yn dilyn cais gan y Comisiynydd am gyllid ychwanegol. Ers hynny, nid ydw i wedi derbyn unrhyw gais gan y Comisiynydd am gyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol eleni (2016-17).

Wrth edrych ar y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18, nid oes toriad wedi bod yng nghyllideb y Comisiynydd o'i chymharu â lefel Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17. Gallaf gadarnhau fy mod wedi derbyn amcangyfrifon cyllidebol y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 ar ddechrau mis Hydref yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fel sydd wedi'i nodi gan swyddfa'r Comisiynydd yn eu neges at y Pwyllgor, mae'r amcangyfrifon yn gofyn am gynnydd yn ei chyllideb yn 2017-18 a 2018-19 o'i chymharu â'r gyllideb bresennol.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn archwilio amcangyfrifon y Comisiynydd a byddaf yn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl y drefn arferol sydd wedi ei phennu yn y Mesur.

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language